OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 554 (Cy. 95)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Mai 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *4 Mai 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Mai 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59, 60, 61 a 333 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mai 2018.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

**2.** Ym mharagraff A.2(4A) o Ran 24 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(**3**) yn lle "30th May 2018" rhodder "30th May 2019".

(**1**) 1990 p. 8 ("Deddf 1990"). Diwygiwyd adran 59 gan adran 27 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) a pharagraff 3 o Atodlen 4 iddi, a chan adran 55 o'r Ddeddf honno a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi. Diwygiwyd adran 333 gan baragraffau 3 a 6 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Nid yw'r diwygiadau eraill i'r adrannau o Ddeddf 1990 y cyfeirir atynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), gweler y cofnodion priodol yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1995/418. Amnewidiwyd Rhan 24 gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/1878 (Cy. 187)) ac fe'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014 (O.S. 2014/2692 (Cy. 267)).

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

2 Mai 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (O.S. 1995/418) ("y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir") o ran Cymru.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ac Atodlen 2 iddo yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â datblygu penodol. Pan fo hawliau o'r fath wedi eu rhoi, nid yw cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

Mae Dosbarth A o Ran 24 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn caniatáu datblygu penodol gan weithredwyr cod cyfathrebiadau electronig ar yr amod nad yw'n dod o fewn A.1 (datblygu nas caniateir) ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a chyfyngiadau perthnasol yn A.2 ac A.3.

Mae paragraff A.2(4A) yn nodi amodau mewn perthynas ag adeiladu, gosod neu amnewid polion, cabinetau neu linellau telegraff ar gyfer gwasanaethau band eang llinell sefydlog mewn perthynas â chategorïau o dir a nodir yn erthygl 1(5) o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir a Rhan 2 o Atodlen 1 iddo. Os bodlonir yr holl amodau perthnasol, nid yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer datblygiad o'r fath o dan baragraff A.3. Un o'r amodau hynny yw bod rhaid cwblhau'r datblygiad ar 30 Mai 2018 neu cyn hynny.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn estyn y dyddiad hwnnw i 30 Mai 2019.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer y Gorchymyn hwn oherwydd ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar fusnesau, ar elusennau nac ar y sector cyhoeddus y tu hwnt i natur yr hyn a archwiliwyd yn yr asesiad effaith a oedd yn mynd gyda Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014 (O.S. 2014/2692 (Cy. 267)), a fewnosododd baragraff A.2(4A) yn Rhan 24. Gellir cael copi o'r asesiad hwnnw oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.